

Memorandwm Esboniadol i:

Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig yr is-ddeddfwriaeth a restrir uchod.

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
11 Hydref 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu gwybodaeth am ddau ddarn cysylltiedig o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gwneud o dan. Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (y '*Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol*') yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol

3. Y Cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau Diwygio Canlyniadol i gael eu gwneud i'w gweld yn adran 255 o Ddeddf 2016. Gan fod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau Diwygio Canlyniadol yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol, mae'n ofynnol o dan adran 256(3) a (5) o Ddeddf 2016 i'r Rheoliadau hynny ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

Yn gyffredinol, mae'r gwelliannau hyn naill ai:

- a. yn sicrhau bod y ddarpariaeth sydd eisoes yn bod mewn deddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy
 - i. cyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at y mathau o denantiaethau sydd eisoes yn bod
 - ii. neu drwy gynnwys y derminoleg a ddefnyddiwyd yn Neddf 2016neu
- b. pan fwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith sydd eisoes yn bod neu os nad yw'r gyfraith sydd eisoes yn bod yn gydnaws â'r gyfraith yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae angen gwneud y diwygiadau hyn er mwyn gweithredu Deddf 2016, er mwyn bod yn gydlynol, rhoi eglurder a sicrhau cysondeb o ran y gyfraith.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni ddisgwylir i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn newid polisi (na'i effaith) mewn ffordd arwyddocaol. O'r herwydd, nid oes RIA wedi'i gynnal i gyd-fynd â'r Rheoliadau hyn. Mae hynny'n unol â'r polisi a geir yng Nghod RIA Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.